



CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	26 Medi 2018
TEITL	Cyllideb GwE 2018/19 – Adolygiad Chwarter 1af
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none">• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2018/19.• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr adroddiad.
AWDUR	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

1. CASGLIAD

- 1.1 Mae adolygiad cychwynnol yma yn amcangyfrif tanwariant net o (£6,585) yn erbyn y gyllideb, gyda'r prif reswm yn ymwneud gyda throsiant staff.
- 1.2 Bwriedir cyflwyno cynllun gweithredu i'r Cydbwyllgor yn fuan, yn datrys yn barhaol y diffyg cyllidol amlygir yn rhan 2.3 a rhan 2.4.
- 1.3 Mae rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 Gweithwyr - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth:

Chwarter 1: tanwariant (£77,700).

Mae trosiant staff, yn bennaf secondiad i Gyfarwyddwr Cynorthwyol o'r 1af o Fehefin wedi arwain at danwariant un-tro gan ariannu, ar sail dros dro, arbedion i'w ddarganfod (gweler 2.4).

2.2 Cludiant – Costau Teithio:

Chwarter 1: tanwariant (£4,932).

Mae tuedd costau teithio hanesyddol yn awgrymu bod y gwir gost flynyddol yn debygol o fod ychydig yn is na'r hyn sydd wedi ei sefydlu yn y gyllideb. Rhagwelir y bydd hyn yn parhau yn 2018/19.

2.3 Cyflenwadau a Gwasanaethau:

Chwarter 1: Gorwariant £28,168.

Mae'r pennawd yma yn gorwario yn flynyddol am nifer o resymau. Disgwylir i hyn barhau yn 2018/19. Yn benodol i 2018/19, mae anawsterau penodi cyfieithydd dros dro, a gofynion ychwanegol rhai Prosiectau Penodol, yn cynyddu'r defnydd o gyfieithwyr allanol.

2.4 Arbedion i'w darganfod

Chwarter 1 : Gorwariant £47,879.

Gorwariant gan nad oes strategaeth barhaol hyd yma ar gyfer gweithredu'r targed arbedion. Defnyddir arbediad trosiant staff (gweler 2.1) i'r targed arbedion yn y tymor byr.

2.5 Grant Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Chwarter 1 : Niwtral.

Yn 2018/19 mae holl grantiau mae'r GwE yn ei dderbyn yn flynyddol, oni bai i'r Grant Datblygu Disgyblion, wedi ei gyfuno i un grant cynhwysfawr. Mae'r gyllideb wedi ei addasu i weithredu'r newid yma. Ni ragwelir gôr na than wariant hyd yma.

Dadansoddi'r grant gyflawn isod:

Datganoledig*	£25,908,641
Heb ei ddatganoli	£ 9,198,005
Cyfanswm	£35,106,646
Grant	£32,620,366
Arian Cyfatebol	£ 2,486,280
Cyfanswm	£35,106,646

* Nid yw cyfrifon y GwE yn cynnwys grantiau wedi eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r ysgolion.

3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2018/19 oedd (£271,616).

ATODIADAU

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2018/19 – Adolygiad Chwarter 1af 2018/19.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad.